DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003
TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**Rhif trwydded	Premises licence number:**	**PRM 0694 (Cyhoeddwyd | Issued 07/02/2022)**

Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details

Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:

BAR46

46 STRYD Y BONT / BRIDGE STREET

**Tref bost	Post town**	**Côd Post	Post code**
ABERYSTWYTH	**SY23 1QB**
**Rhif ffôn	Telephone number**	

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates

NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded /
Licensable activities authorised by the licence:

ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDO / REGULATED ENTERTAINMENT
CERDDORIAETH FYW / LIVE MUSIC – O Dan Do / Indoors
CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO / RECORDED MUSIC – O Dan Do / Indoors
PERFFORMIADAU DAWNS / PERFORMANCES OF DANCE – O Dan Do / Indoors
UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU DAWNS / ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC or RECORDED MUSIC or PERFORMANCES OF DANCE – O Dan Do / Indoors

ADWERTHU ALCOHOL / SALE BY RETAIL OF ALCOHOL –
Ar y Safle ac Oddi Ar y Safle / On and Off Sales

DARPARU LLUNIAETH POWETH YN HWYR YN Y NOS – O Dan Do / Indoors

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy
The times the licence authorises the carrying out of licensable activities

ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDO / REGULATED ENTERTAINMENT

• **CERDDORIAETH FYW / LIVE MUSIC** • **CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO / RECORDED MUSIC** • **PERFFORMIADAU DAWNS / PERFORMANCES OF DANCE** • **UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDI neu PERFFORMIADAU DAWNS / ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC or RECORDED MUSIC or PERFORMANCES OF DANCE**	**LLUN-SUL / MON-SUN** **1000 – 0200 yn ddyddiol / daily**

ADWERTHU ALCOHOL / SALE BY RETAIL OF ALCOHOL	**LLUN-SUL / MON-SUN** **1000 – 0130 yn ddyddiol / daily**

DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS / PROVISION OF LATE NIGHT REFRESHMENT	**LLUN-SUL / MON-SUN** **2300 – 2345 yn ddyddiol / daily**

AMSERAU ANSAFONOL / NON-STANDARD TIMINGS
NOSWYL CALAN – O ddechrau oriau Noswyl Calan tan ddiwedd oriau Dydd Calan
NEW YEARS EVE – From the commencement of hours on New Years Eve to the conclusion of hours on New Years Day

Oriau agor y safle | The opening hours of the premises

LLUN / MONDAY	**1000 – 0200**
MAWRTH / TUESDAY	**1000 – 0200**
MERCHER / WEDNESDAY	**1000 – 0200**
IAU / THURSDAY	**1000 – 0200**
GWENER / FRIDAY	**1000 – 0200**
SADWRN / SATURDAY	**1000 – 0200**
SUL / SUNDAY	**1000 – 0200**

AMSERAU ANSAFONOL / NON-STNDARD TIMINGS
NOSWYL CALAN – O ddechrau oriau Noswyl Calan tan ddiwedd oriau Dydd Calan
NEW YEARS EVE – From the commencement of hours on New Years Eve to the conclusion of hours on New Years Day

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno
Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies

AR AC ODDI AR Y SAFLE / ON AND OFF SALES

Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle | Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of premises licence

BAR46 LTD

1 TYN Y COED CLOSE
THOMASTOWN
TONYREFAIL
PORTH
RHONDDA CYNON TAF
CF39 8BZ

Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)
Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)

09965657

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol

DALE STEPHENS

Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol

CER 1299

CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL

ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL
1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
(a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
(b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
(3) (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
(b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
(4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae
"corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwylio drysau

(1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
(a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
(b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
(3) At ddibenion yr adran hon -
(a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
(b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

   (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(**6)**;

   (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

   P = D + (DxV)

   pan mai –

   (i) P yw'r pris a ganiateir
   (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
   (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

   (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
   (i) Deiliad y drwydded safle,
   (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
   (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

   (d) ystyr "person perthnasol', mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

   (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.

4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

   (2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014.**

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS

1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol

(1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
(2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
(a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
(b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
(3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

2 Mandatory condition: exhibition of films

(1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
(2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
(3) Where-
(a) the film classification body is not specified in the licence, or
(b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question,
admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
(4) In this section-
"children" means persons aged under 18; and
"film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

3 Mandatory condition: door supervision

(1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
(2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
(a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licences authorising plays or films), or
(b) in respect of premises in relation to-
(i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
(ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions

prescribed by regulations under that Act).
(3) For the purposes of this section-
(a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
(b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014

With effect from 28th May 2014

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.

2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-

(a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;

(b) "permitted price" is the price found by applying the formula –

P = D + (DxV)
where –

(i) P is the permitted price

(ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and

(iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol

(c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –

(i) The holder of the premises licence,

(ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or

(iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;

(d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and

(e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994

3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day ("the first day") would be different from the permitted price on the next day ("the second day") as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1st October 2014**

Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

(a) a holographic mark, or

(b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

(i) beer or cider: ½ pint;

(ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and

(iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu
Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule

ATAL TROSEDD AC ANRHEFN

1. Y Deiliad Trwydded Safle i sicrhau bod yr eiddo yn aelod o'r cynllun BOBB
2. Bydd Goruchwylwyr Drysau yn darparu copi gwreiddiol o'u trwydded wrth ddechrau gweithio ar y safle. Bydd copi o drwydded pob Goruchwyliwr Drysau a gyflogir ar y safle'n cael ei gadw ar y Safle, i'w archwilio gan yr heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu ar gais.
3. Bydd un Goruchwyliwr Drysau ar ddyletswydd pan fydd adloniant rheoledig (ac eithrio cerddoriaeth gefndir) yn cymryd lle ar y Safle, o 21.00 hyd at 30 munud ar ôl i'r safle gau.
4. Pan fydd staff y drysau ar ddyletswydd, byddant yn patrolio'r ardaloedd allanol, gan ofyn i gwsmeriaid adael yn gyflym ac yn dawel. Bydd staff y drysau'n sicrhau bod rhifau tacsis ar gael yn hwylus i gwsmeriaid.
5. Ni chaniateir mynediad i'r safle ar unrhyw adeg i gwsmeriaid sy'n cario gwydrau neu boteli agored neu rai sydd wedi'u selio – ar wahân i'r ardd gwrw.
6. Ni chaniateir i gwsmeriaid i gymryd unrhyw gynhwysydd alcohol neu ddiod ysgafn sydd wedi'i agor oddi ar y safle – ar wahân i'r ardd gwrw.
7. Gwneir ysgubiadau rheolaidd o fannau cyhoeddus yr adeilad i gwaredu o boteli neu gwydrau
8. Rhoddir gwybod i'r heddlu am unrhyw amheuaeth neu achosion o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau.
9. Bydd cyfleuster storio diogel ar gael ar y safle, i storio unrhyw gyffuriau rheoledig a ganfyddir ar y safle, cyn iddynt gael eu casglu gan yr Heddlu.
10. Bydd system CCTV ar waith ar y safle ac yn cydymffurfio â gofynion Heddlu Dyfed Powys
11. Rhaid bod yna gamera ar y prif mynedfa/allanfa gydag ansawdd delweddau o 100%R o leiaf. Rhaid bod y delweddau'n rhai lliw, o ansawdd da, a gallu perfformio lleiaf y camera'n ddigonol ar gyfer adnabod unigolion
12. Rhaid i'r camera recordio o leiaf 12 delwedd yr eiliad
13. Yr holl ddelweddau yn ystod oriau gweithgareddau trwyddedadwy i'w cadw am gyfnod o 30 diwrnod.
14. Rhaid i'r system CCTV fod ar waith trwy'r amser, ac os bydd nam yn codi, rhaid rhoi gwybod i'r heddlu a gwneud trefniadau di-oed i drwsio'r nam
15. Rhaid i'r holl ddelweddau fod ar gael i'w gwylio <u>ar gais</u> swyddog heddlu, a dylai copi o'r delweddau hynny fod ar gael yn ddi-oed i'r swyddog heddlu/awdurdod lleol yn unol â Deddf Diogelu Data
16. Ar bob adeg yn ystod y cyfnod gweithredu ar y safle, rhaid bod yna berson cymwys ar y safle all ymateb a throsglwyddo unrhyw ddeunydd a recordiwyd yn gyflym i gyfrwng storio symudadwy (fformat ffon gof, CD neu DVD). Bydd y prif gopi ar gael i'r heddlu yn unol â Deddf Diogelu Data.
17. Rhaid i'r system ymgorffori dull o drosglwyddo delweddau o'r gyriant caled i fformat y gellir ei chwarae'n ôl ar unrhyw gyfrifiadur sy'n defnyddio Microsoft Windows neu Mac. Rhaid i'r feddalwedd sydd ei hangen i lwytho a gwylio delweddau a recordiwyd fod un ai wedi'i chynnwys fel rhan o'r system weithredu safonol a osodwyd, neu gael ei gosod i'r cyfrwng recordio pan fydd y data'n cael ei gopïo i'r cyfrwng hwnnw.
18. Gosodir hysbysiadau ger y fynedfa i'r safle'n rhoi gwybod i gwsmeriaid bod camerâu CCTV ar y safle

DIOLGELWCH Y CYHOEDD

19. Bydd y safle'n sicrhau na fydd mwy na 250 o bobl ar y safle ar unrhyw adeg.
20. Bydd y Goruchwylwyr Drysau'n rheoli'r uchafswm niferoedd.
21. Bydd staff yn monitro'r niferoedd yn yr ardd gwrw i osgoi sŵn gormodol a gorlenwi
22. Bydd holl ardaloedd y safle wedi'u goleuo'n ddigonol.

23. Bydd yr holl arwyddion diogelwch tân wedi'u goleuo'n ddigonol.
24. Cynhelir profion blynyddol ar y goleuadau argyfwng.
25. Ni chaniateir defnyddio unrhyw effeithiau arbennig ar y safle
26. Diffinnir effeithiau arbennig fel a ganlyn:
    a. Peiriannau iâ sych a niwl cryogenig
    b. Peiriannau mwg a pheiriannau cynhyrchu niwl
    c. Pyrotechneg, gan gynnwys tân gwyllt
    d. Fflamau go iawn
    e. Drylliau/Arfau
    f. Cerbydau Modur
    g. Goleuadau strôb
    h. Goleuadau fflachiog
    i. Goleuadau laser
    j. Ffrwydron a sylweddau hynod fflamadwy
27. Offer a deunyddiau cymorth cyntaf digonol a phriodol i fod ar gael yn y swyddfa sydd ar y Safle.
28. Bydd Goruchwyliwr y Safle â chymhwyster cymorth cyntaf sylfaenol.
29. Rhaid peidio â defnyddio'r hen seler ym Mar 46, sydd wedi'i lleoli o dan y fflat ar gyfer bwyta neu yfed. Ni ddylai aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r ardal hon ac eithrio Pobl sy'n gwneud gwaith dilys yn yr ardal.

ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

30. Gosodir hysbysiadau ar y safle'n rhybuddio cwsmeriaid y gallant gael eu gwahardd o'r safle os byddant yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol
31. Bydd hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy'n cael eu gosod ger pob mynedfa, yn gofyn i gwsmeriaid i barchu'r cymdogion a'r trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel.
32. Rhestr gyfredol o gwmnïau tacsi lleol i fod ar gael ymhob bar ac wedi'i harddangos ar hysbysfyrddau yn y cyntedd.
33. Dyfais cyfyngu sain/ sŵn i'w leoli ar y safle, wedi'i osod ar uchafswm o 100 desibel
34. Bydd ffenestri'r safle'n cael eu cadw ar gau a'r bob cyfle.
35. Bydd mynedfa/Allanfa Stryd y Felin ar gau trwy'r amser
36. O 9 YH fydd dim hawl da cwsmeried I fynd a gwydre o ddiod allan ir ardd, a dim ond y rhan uchaf or gardd fydd pobol yn galler defnyddio ar ol 9yh ac I ysmugu yn unig. – (amod 36)
37. Yr ardd gwrw i gau am 21.00 bob dydd. O 21:00 ymlaen ni fydd cwsmeriad yn cael mynd a diodydd allan I'r ardd gwrw a gall cwsmeriad ddefnyddio rhan uchaf yr ardd gwrw at ddibenion ysmygu un unig.
38. Ni bydd cerddoriaeth wedi ei recordio yn cael eu chwarae yn yr ardd gwrw
39. Bydd goleuadau'r ardd gwrw ond yn cael ei troi ymlaen pan ar agor i'r Cyhoedd
40. Hysbysiadau i'w gosod ar y safle yn rhoi gwybod i gwsmeriaid y bydd yr Ardd Gwrw'n cau am 21.00 bob dydd
41. O 21:00 hyd nes y bydd y safle ar gau am 1:30am bydd yr ardd gwrw a'r mynedfa yn cael eu goruchwylio'n agos gan o leiaf un goruchwyliwr drws.
42. O 21:00 ymlaen bydd cwsmeriad sy'n defnyddio'r ardal yn cael eu cynghori gan y goruchwyliwr drws I gadw ei hamser yn yr ardal tu allan I'r lleiaf posibl ac I barchu cymdogion lleol.
43. Bydd y system awyru a thynnu yn cael ei dylunio a'r chynnal er mwyn atal arogleuon niweidiol rhag achosi niwsans I eiddo cyfagos.
44. Bydd unrhyw oleuadau diogelwch neu oleuadau mynediad yn cael eu gweithredu i beidio ag achosi niwsans i eiddo cyfagos.
45. Bydd caead ar bob bin sbwriel, a byddant yn cael eu cadw mewn man diogel nes y diwrnod casglu. Ni fydd y biniau sbwriel yn cael eu gorlenwi.

46. Cedwir golwg ar yr ardd gwrw a'r llwybr troed allanol o amgylch ymyl yr adeilad yn ddyddiol, gan glirio unrhyw sbwriel neu weddillion a'i osod yn y biniau sbwriel.

AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

47. Bydd y safle'n gweithredu polisi 'Challenge 25'.
48. Bydd polisi'r safle'n cydnabod cardiau VALIDATE UK neu gardiau PASS safonol tebyg; trwyddedau gyrru gyda llun, neu basbortau.

Bar 46 – Polisi Plant

Roedd Deddf Trwyddedu 2003 wedi cael gwared ar y rhan fwyaf o'r cyfyngiadau ar ganiatáu i blant fynd i dafarndai, a hynny i roi hyblygrwydd i safleoedd trwyddedig ac i hwyluso amgylchedd sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae Bar 46 yn lle amlbwrpas o ran y gwasanaethau y mae'n eu cynnig i'r gymuned leol ac mae croeso i blant mewn amrywiol amgylchiadau.

Pan fydd plant yn bresennol ar y safle, mae eu lles yn hollbwysig ac mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau pryd y bydd modd iddynt fod yn bresennol a'r camau a gymerir i'w diogelu rhag drwg.

<u>Yn ystod y dydd</u>
Yn ystod y dydd ac i mewn i'r nos, mae Bar 46 yn lleoliad sy'n ystyriol o deuluoedd a lle mae plant yn mynychu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae bwydlen lawn ar gael sy'n cynnwys bwydlen i blant. Yn ogystal â phrif fwydlen y plant, mae lluniaeth megis ysgytlaeth, *fruit shoot* a hufen ia siocled ar gael. Mae'r staff yn effro ac yn cadw golwg ar blant ac mae staff y bar yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu drwy gynllun *Challenge 25.*

<u>Digwyddiadau</u>
Yn ogystal â bod yn bresennol gyda'u rhieni o ddydd i ddydd, mae angen bod yn hyblyg er mwyn i blant fod ar y safle ar gyfer digwyddiadau teuluol megis penblwyddi 40 a 50 neu bartïon pen-blwydd priodas. Gall digwyddiadau o'r fath bara'n hwyr gyda phlant yn bresennol.
Mae digwyddiadau yn cael eu bwcio ymlaen llaw a chedwir cofnod o'r bwcin. Mae'r staff yn effro ac yn cadw golwg ar blant ac mae staff y bar yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu drwy gynllun *Challenge 25.*

<u>Yn gyffredinol - Gyda'r hwyr</u>
Ar yr adegau pan nad oes digwyddiad a bod Bar 46 ar agor i'r cyhoedd, nid oes bwyd yn cael ei weini ar ôl 10pm. Ar yr adegau hyn, caiff y safle ei ddiffinio fel un sy'n cael ei ddefnyddio 'yn bennaf neu'n unig' ar gyfer cyflenwi ac yfed alcohol ar y safle. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ni fyddai plentyn o dan 16 oed â hawl i fod ar y safle oni bai ei fod yng nghwmni rhywun sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn.

Fodd bynnag, polisi Bar 46 fyddai mai ond pobl sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn fyddai â hawl i fod ar y safle. Mae staff y lleoliad yn gweithredu hyn ar y drws drwy ofyn am brawf oedran ac wedyn wrth werthu drwy gynllun *Challenge 25.*

THE PREVENTION OF CRIME AND DISORDER

1. The premises licence holder will ensure that the venue is a member of the BOBB Scheme
2. Upon employment, Door Supervisors will present their original of their licence and a copy will be retained at the premises for inspection by the Police or officer authorized by the licensing authority upon request
3. One Door Supervisor will be on duty when regulated entertainment (other than background music) is taking place at the premises from 2100hrs until 30minutes after the premises closes
4. Door supervisors will patrol the outside areas asking customers to leave quickly and quietly and will make taxi numbers readily available to patrons
5. Customers carrying open or sealed bottles or glasses will not be admitted to the premises at any time – other than from the beer garden.
6. Customers will not be permitted to take open containers of alcoholic or soft drinks from the premises – other than to or from the beer garden.
7. Regular sweeps of the public areas of the premises to remove finished bottles or glasses
8. Any instance of illegal drug use or suspected illegal drug use will be reported to the Police
9. A secure storage facility will be available on the premises to store any controlled drugs found on the premises prior to collection by the Police.
10. A CCTV system will be operational at the premises and be according to the specification required by Heddlu Dyfed Powys Police
11. The whole of the licensed area with entry and exit areas will be covered by cameras, and there must not be any hidden or obscured areas
12. The main entrance/exit will have a camera meeting a minimum of 100%R image quality. All footage must be in colour, of good quality and of a minimum performance capability sufficient to identify individuals.
13. The system will record at a minimum of 12 images per second and all images will be time and date stamped.
14. All footage during the house of licensable activities will be retained for a period of 30 days
15. The CCTV system must operate continuously, and if a defect arises the Police must be informed and immediate arrangements must be made to rectify the fault
16. All footage must be made available to a police officer for viewing and a copy of that footage made available to a police officer/local authority officer in accordance with the Data Protection Act
17. At all times during the period of operation of the premises there must be a competent person on the premises capable of replay and be able to undertake the export of recordings quickly onto a removable storage medium (memory stick, CD, or DVD format). The master copy will be available to the police in accordance with the Data Protection Act
18. The system must incorporate a means of transferring images from the hard-drive to a format that can be played back on any Microsoft Windows or MAC compatible computer. The application software required to launch and view recorded images must either be included as part of the standard operating system installed or be installed to the recorded media when the data is copied to that media.
19. Notices will be displayed at the entrance to the premises advising customers that CCTV is in operation on the premises

PUBLIC SAFETY

20. The capacity limit for the premises will be 250 persons.
21 Door Supervisors will ensure that capacity limits are controlled.
22. Staff will monitor numbers in the beer garden to prevent excessive noise and overcrowding.
23. AII areas of the premises will be adequately lit.

24. All fire safety signs will be adequately illuminated
25. Emergency lighting will be tested annually.
26. Use of special effects will not be permitted on the premises. Special effects are defined as:
• Dry ice machines and cryogenic fog smoke fog
• Smoke machines and fog generators
• Pyrotechnics including fireworks
• Real flames
• Firearms
• Motor vehicles
• Strobe lighting
• Flashing Lights
• b.asers
• Explosives and highly flammable substances
27.Adequate and appropriate first aid equipment and materials will be available within the Premises.
28. The DPS will have a basic first aid qualification.
29. The old cellar in Bar 46, situated under the flat must not be used for the consumption of food or drink. This area is not to be accessed by members of the public with the exception of Persons carrying out bona fide work in the area.

PREVENTION OF PUBLIC NUISANCE

30 Notices will be displayed at the premises advising customers that if they act in an inappropriate manner they could be barred from the premises.
31 Prominent, clear and legible notices will be displayed at all exits requesting that customers respect the neighbours and local residents and to leave the premises and the area quietly.
32. An up to date list of local taxi firms will be available on all bars and the notice boards in the foyer.
33. A sound/noise limiter device to be installed at the premises to be set at maximum 100 decibels.
34. Windows in the premises will be closed at all times.
35. The Mill Street entrance/exit to the premises will be closed at all times.
36. The beer garden will close at 21:00hrs daily. From 21:00 customers will not be permitted to take drinks out into the beer garden and customers may use the top part of the beer garden only for smoking purposes only (condition 36)
37. There will be no playing of recorded music in the beer garden.
38. The beer garden lighting will only be switched on during the hours that it is open to the public.
39. Notices to be displayed at the premises informing customers that the beer garden closes at 21:00 hours.
40. From 21:00 until closure of the premises at 1.30.a.m the beer garden and its entrance will be closely supervised by the minimum of one door supervisor
41. From 21:00 customers making use of the area will be advised by the door supervisor to keep their time in the outside area to a minimum and to be respectful to local neighbours.
42 The ventilation and extract system will be designed and maintained so as to prevent noxious smells causing a nuisance to nearby properties.
43. Security lighting will be installed and operate so as not to cause a nuisance to nearby properties.
44. .AII refuse bins will have lids and will be kept in a secure location until the day of collection. They will not be overfilled and the receptacles and the area where they will be kept in a clean and tidy condition.

45. The beer garden and the external public footway immediately surrounding the premises will be checked daily and any litter or debris cleared.

THE PROTECTION OF CHILDREN FROM HARM

46. The premises will operate a Challenge 25 Policy.
47. The only forms of identification that will be accepted as proof of age will be a driving licence, passport or cards bearing the PASS hologram.

Bar 46 – Children Policy

The Licensing Act 2003 swept away most restrictions on allowing children in pubs to allow flexibility for licensed premises operators and encourage a family friendly environment. Bar 46 is a versatile venue in terms of the services it provides to the local community and children are welcomed in a variety of circumstances.

When children are present on the premises their welfare is of paramount importance and this policy outlines the circumstances, they may be present and the measures that are taken to protect them from harm.

Day time

During the day and into the evening Bar46 is a family friendly venue where children attend with parents and friends. There is a full menu available and a children's menu included. In addition to the main children's menu refreshments such as milkshakes, fruit shoots and chocolate sundaes are available.
Children are monitored by staff who are vigilant and bar staff ensure children are protected by way of the Challenge 25 Scheme.

Functions

In addition to being present on a daily basis with parents, flexibility is required for children to be able to be on the premises for family functions such as 40th, 50th birthdays or wedding anniversary parties. Such functions can go on late with children in attendance.
Functions are pre-booked and the booking documented. Children are monitored by staff who are vigilant and bar staff ensure children are protected by way of the Challenge 25 Scheme.

General - Late night

On occasions where there is no function and Bar46 is generally open to the public, food stops being served at 10pm. On these occasions the premises fall into the definition of being used 'primarily or exclusively' for the supply and consumption of alcohol on the premises. As required by the Licensing Act 2003 a child under the age of 16 would not be permitted on the premises unless they are accompanied by someone 18 or over.

However, the policy of Bar46 would be that only people permitted into the venue will be aged 18 or over. The venue doorstaff enforce this at the door by way of ID checks and then at the point of sale by using the Challenge 25 scheme.

Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu
Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting

Is-Bwyllgor Trwyddedu a cynhelir ar a 27ain Medi 2019. Trwydded Eiddo yn amodol i'r uchod.
Licensing Sub-Committee held on 27th September 2019. Premises Licence subject to the above.

Is-Bwyllgor Trwyddedu a cynhelir ar a 7ed o Chwefror 2022 . Trwydded Eiddo yn amodol i'r uchod.
Licensing Hearing held on 7th February 2022 via Teams in relation to a variation submitted by Bar 46

The decision of the committee was to grant the variation under S34 and S35 of the Licensing Act 2003.

The variation was granted to the existing Premises Licence by modifying the conditions of the licence in the following terms:

Condition 36. Modified to the beer garden will close at 21 00 hrs
Condition 39 Notices to be displayed that beer garden closes at 21:00
Condition 40 removed this related to the door between the beer garden and the main bar to remain closed.

Additional conditions:

- Ychwanegwyd Amod 29 yn dilyn o ganlyniad I gais I adolygu'r drwydded safle yn ôl Safonau Masnachu Ceredigion a'r 26/04/2021. Cyfryngodd newid DPS hefyd.
  Condition 29 added following mediation as a result of an application to review the premises licence by Ceredigion Trading Standards on 26/04/2021. Change of DPS also mediated.

- O 9 YH fydd dim hawl da cwsmeried I fynd a gwydre o ddiod allan ir ardd, a dim ond y rhan uchaf or gardd fydd pobol yn galler defnyddio ar ol 9yh ac I ysmugu yn unig. – (amod 36)
  From 21:00 customers will not be permitted to take drinks out into the beer garden and customers may use the top part of the beer garden only for smoking purposes – (now Condition 36 on amended licence.)

- O 9yh hyd fydd y tafarn yn cau am 1.30 yb fe fydd y gardd ar myndefa yn cael eu gwylio yn agos gyda o leia un swyddog diogeli. (Amod 40 ar trwydded Newydd)
  From 21:00 until closure of the premises at 1.30.a.m the beer garden and its entrance will be closely supervised by the minimum of one door supervisor- (condition 40 on new licence)

- O 9yh fydd cwsmeriaid yn cael eu atgoffa gydar swyddog diogeli, bod yn rhaid I'r cwsmeriaid I gadw eu amser ty fas yn fyr, ac i fod yn barchus or cymdogion a tai cyfagos – (nawr amod 41 ar y trwydded).
  From 21:00 customers making use of the area will be advised by the door supervisor to keep their time in the outside area to a minimum and to be respectful to local neighbours. (Now condition 41)

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans